# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 13 Mawrth 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(52)

### 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30.

Gofynnwyd cwestiwn 1 a chwestiynau 3-14. Tynnwyd cwestiwn 2 yn ôl. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

**Datganiad gan y Llywydd: Diwrnod y Gymanwlad**
Tynnodd y Llywydd sylw'r Aelodau at anerchiad Ei Mawrhydi y Frenhines ar Ddiwrnod y Gymanwlad, ddydd Llun 12 Mawrth. Caiff ei gyhoeddi fel rhan o Gofnod y Trafodion.

### 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.28.

### 3. Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol: Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru

Dechreuodd yr eitem am 14.40.

### 4. Dadl: Diwygio Budd-dal Tai

Dechreuodd yr eitem am 15.15

**NDM4934 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu at yr effaith y bydd newidiadau arfaethedig Llywodraeth y DU i fudd-dal tai yn ei chael ar bobl dlotaf Cymru;

2. Yn nodi'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn parhau i'w wneud gyda rhanddeiliaid i helpu pobl i ymdopi â'r newidiadau.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

*[Os caiff gwelliant 1 ei dderbyn, caiff gwelliannau 2 a 4 eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 1 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi newidiadau arfaethedig Llywodraeth y DU i fudd-dal tai, sy'n angenrheidiol er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg a gafodd ei adael gan y Llywodraeth Lafur flaenorol.

2. Yn croesawu bwriad Llywodraeth y DU i gynnwys cymorth tai mewn Credyd Cynhwysol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 0 | 38 | 55 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 1 'gan gynnwys gweithwyr sydd ar gyflog isel'.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 38 | 13 | 4 | 55 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt 2 newydd ac ail-rifo'r pwyntiau sy'n dilyn:

2. Yn nodi'r adroddiad gan Cuts Watch Cymru 'Cymru ar y Dibyn' a'i argymhellion yng nghyswllt y newidiadau i fudd-dal tai.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 42 | 13 | 0 | 55 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 2:

', ond yn credu ei bod yn amser rhoi'r gorau i siarad â Rhanddeiliaid ac yn amser dechrau modelau cyflenwi da'

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 0 | 38 | 55 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod ymgynghoriad Llywodraeth flaenorol y DU ar Fudd-dal Tai yn dangos mewn rhai ardaloedd bod Budd-dal Tai yn gallu cefnogi cwsmeriaid i fyw mewn llety na all nifer o bobl sydd mewn gwaith ei fforddio, ac yn dadlau bod angen rhagor o ddiwygiadau.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 0 | 38 | 55 |

**Gwrthodwyd gwelliant 5.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4934 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu at yr effaith y bydd newidiadau arfaethedig Llywodraeth y DU i fudd-dal tai yn ei chael ar bobl dlotaf Cymru gan gynnwys gweithwyr sydd ar gyflog isel.

2. Yn nodi'r adroddiad gan Cuts Watch Cymru 'Cymru ar y Dibyn' a'i argymhellion yng nghyswllt y newidiadau i fudd-dal tai.

3. Yn nodi'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn parhau i'w wneud gyda rhanddeiliaid i helpu pobl i ymdopi â'r newidiadau.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **37** | **0** | **17** | **55** |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**5. Dadl: Strategaeth yr Iaith Gymraeg 2012-17**

Dechreuodd yr eitem am 16.20

**NDM4935 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod Strategaeth newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, Iaith fyw: iaith byw, a fabwysiadwyd yn unol ag adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, wedi'i chyhoeddi; a

2. Yn nodi ymhellach yr ymrwymiad sydd yn y Strategaeth i weld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru a chynnydd yn nifer y bobl sy'n siarad ac yn defnyddio'r iaith.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i egluro lefel y cyfranogiad a fydd gan sefydliadau gwirfoddol, annibynnol a phreifat wrth gyflenwi'r strategaeth.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 9 | 29 | 55 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi gyda phryder y ffaith bod nifer y cymunedau lle mae dros 70 y cant o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg wedi gostwng yn sylweddol yn ôl y cyfrifiad diwethaf.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 55 | 0 | 0 | 55 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar y Llywodraeth i sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i gynllunio ar gyfer cynyddu nifer y cymunedau lle mae'r Gymraeg yn brif iaith.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 55 | 0 | 0 | 55 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar y Llywodraeth i gynnwys mesurau i adfywio'r Gymraeg fel iaith gymunedol yn ei rhaglen ddeddfwriaeth.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 29 | 55 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar y Llywodraeth i adnabod y gyllideb sy'n angenrheidiol i wireddu'r strategaeth.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 55 | 0 | 0 | 55 |

**Derbyniwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i nodi sut y caiff ei thargedau i gynyddu nifer y disgyblion sy’n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg eu cyrraedd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 29 | 55 |

**Gwrthodwyd gwelliant 6.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi’i ddiwygio:**

**NDM4935 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod Strategaeth newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, Iaith fyw: iaith byw, a fabwysiadwyd yn unol ag adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, wedi’i chyhoeddi;

2. Yn nodi ymhellach yr ymrwymiad sydd yn y Strategaeth i weld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru a chynnydd yn nifer y bobl sy’n siarad ac yn defnyddio’r iaith;

3. Yn nodi gyda phryder y ffaith bod nifer y cymunedau lle mae dros 70 y cant o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg wedi gostwng yn sylweddol yn ôl y cyfrifiad diwethaf;

4. Yn galw ar y Llywodraeth i sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i gynllunio ar gyfer cynyddu nifer y cymunedau lle mae'r Gymraeg yn brif iaith; a

5. Yn galw ar y Llywodraeth i adnabod y gyllideb sy'n angenrheidiol i wireddu'r strategaeth.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **55** | **0** | **0** | **55** |

**Derbyniwyd y cynnig wedi’i ddiwygio.**

**Cyfnod Pleidleisio**
Dechreuodd y Cyfnod Pleidleisio am 17.11

Daeth y cyfarfod i ben am 17:20

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 14 Mawrth 2012**